Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

—

Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Henry Faure Walker, Prif Swyddog Gweithredol
Julia Lancett, Rheolwr Gyfarwyddwr
Newsquest Media Group
4th Floor, Queens House
55/56 Lincolns Inn Fields
London, WC2A 3LJ

26 Awst 2022

Cau The National Wales

Annwyl Henry a Julia

Rwy'n ysgrifennu i fynegi pryderon dybryd y Pwyllgor ynghylch eich cyhoeddiad sydyn ddydd Mercher 24 Awst 2022 ynghylch cau gwefan newyddion The National Wales. Rydym yn siomedig bod y cyhoeddiad wedi'i wneud ar fyr rybudd, o ran yr hyn y mae'n ei olygu i luosogrwydd y cyfryngau yng Nghymru, yn ogystal ag i'r newyddiadurwyr hynny a allai golli eu swyddi.

Rydym o'r farn bod lluosgorwydd y cyfryngau yn rhan hanfodol o unrhyw ddemocratiaeth iach. Fel y gwyddoch, mae'r cyfryngau yn chwarae rhan bwysig nid yn unig wrth ddwyn y rhai sydd mewn pŵer i gyfrif, ond hefyd fel offeryn cyfathrebu i drafod materion eraill o ddiddordeb mewn cymdeithas rydd a sifil; diwylliant, economeg a chwaraeon ymhlith eraill. Yn wahanol i'r Alban neu Ogledd Iwerddon, nifer cyfyngedig iawn o deitlau cyfryngol Cymru gyfan sydd. Felly mae effaith y teitlau hynny sydd gennym, fel The National Wales, yn bwysicach fyth. Fel yr Alban, mae Cymru yn wlad gyda'i Senedd deddfu a chodi trethi ei hun. Mae sicrhau bod gan bobl Cymru fynediad at, a'u bod yn gallu defnyddio, ystod o gyfryngau o wahanol safleoedd i'w hysbysu o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau yn hynod o bwysig. Mae colli gwefan newyddion arall yn siomedig a phryderus iawn.

Rydym hefyd yn ddigalon o glywed y bydd dau newyddiadurwr a allai fod yn ddi-waith o ganlyniad i'ch penderfyniad. Mae gan Newsquest Media Group amrywiaeth o deitlau wedi'u lleoli yng Nghymru, gan gynnwys y safle newyddion cyfrwng Cymraeg a lansiwyd yn ddiweddar, Corgi Cymru. Byddem yn croesawu cadarnhad gennych o'r hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod newyddiadurwyr dawnus o Gymru yn gallu parhau â'u gwaith yma yn ysgrifennu am faterion pwysig y dydd.

Mae'n hysbys bod gwerthiant papurau newydd wedi bod yn gostwng ers degawd neu fwy wrth i bobl chwilio am gyfryngau gwahanol, sydd weithiau'n rhad ac am ddim, ar gyfer eu defnydd newyddion. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi y gallai'r sefyllfa economaidd bresennol fod wedi chwarae rhan yn eich penderfyniad i roi'r gorau i redeg The National Wales. Mae effaith yr argyfwng costau byw presennol yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau. Yn anffodus, os yw pobl yn cyfrif pob ceiniog,

y peth cyntaf i fynd yw eitemau nad ydynt yn angenrheidiol, fel tanysgrifiadau. Mae colled tanysgrifwyr Netflix a adroddwyd yn ddiweddar yn dyst i hyn. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ymwybodol bod rhedeg gwefan newyddion ar-lein yn golygu nad yw'r un mor agored i gostau fel argraffu a dosbarthu ag y bydd teitlau print.

Yng ngoleuni'r pwyntiau yr ydym wedi'u codi yn y llythyr hwn, hoffem ofyn i chi:

- Roi eglurhad llawnach (na'r hyn a adroddwyd eisoes) o'ch rhesymau dros gau gwefan newyddion The National Wales.
- Beth fydd yn digwydd i'r newyddiadurwyr hynny a gyflogir gan The National Wales? A ydynt yn gymwys i'w hail-leoli ar draws teitlau Cymraeg eraill sy'n eiddo i Newsquest?
- Pa fodelau busnes eraill sydd wedi cael eu hystyried i sicrhau bod The National Wales yn goroesi?
- O ystyried eich rôl yn y gwaith o redeg Corgi Cymru, a'r potensial ar gyfer gweithio ar y cyd ar gyfer y teitl hwnnw gyda The National Wales, pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i sefydlu ystafell newyddion ddwyieithog i Gymru o fewn Newsquest Media?

Er ein bod yn gwerthfawrogi mai busnes preifat yw Newsquest Media Group, byddem yn erfyn arnoch i ystyried y rôl sydd gan y cwmni yn nhirwedd cyfryngau Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried y pwyntiau a godwyd yn y llythyr hwn yn ofalus a byddem yn croesawu deialog barhaus gyda chi ar y mater hwn dros yr wythnosau nesaf.

Yn gywir

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.